




Newidiadau i'r gyfraith a chanllawiau ar wneud eich penderfyniadau eich hun Beth yw eich barn?





Fersiwn hawdd i'w ddarllen o
'Ymgynghoriad ar newidiadau a
gynigir i God Ymarfer y Ddeddf
Galluedd Meddyliol 2005 a
gweithrediad y Trefniadau Amddiffyn
Rhyddid (LPS), gan gynnwys is-
ddeddfwriaeth y Trefniadau
Amddiffyn Rhyddid

Cynnwys

Tudalen

Yr hyn mae'r llyfryn hwn yn ei ddweud wrthy ch am	3
<hr/>	
Amdanoch chi	7
<hr/>	
Newidiadau i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol	11
<hr/>	
Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)	14
<hr/>	
Sefydlu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid	25
<hr/>	
Bod yn deg i bawb	26
<hr/>	
Beth yw eich barn am y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid?	27
<hr/>	
Yn olaf	40
<hr/>	
Diolch	41



Yny ddogfen Hawdd i'w Darllen hon, mae geiriau anodd mewn **testun trwm**. Rydym yn egluro beth yw ystyr y geiriau hyn yn yfrawddeg ar ôl iddynt gael eu defnyddio.

Gallwch gael mwy o gymorth I ddeall rhai geiriau yn y Llyfryn Hawdd i'w Ddarllen ar wahân o'r enw 'Ein geiriau wedi'u hesbonio'.

Yr hyn mae'r llyfryn hwn yn ei ddweud wrthy ch am



Deddf Galluedd Meddyliol

2005 Mae angen cymorth ar rai pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau oherwydd efallai nad oes ganddynt y **galluedd**.



Mae galluedd yn golygu eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau am eich bywyd ar yr adeg y mae angen i chi eu gwneud.





Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gyfraith yn Lloegr ac yng Nghymru sy'n helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn dweud beth sy'n digwydd pan nad oes gan bobl **alluedd**.

Cod Ymarfer

Mae'r Ddeddf yn dweud bod **yn rhaid i God Ymarfer** fod ar ffurf ysgrifennedig.

Mae Cod Ymarfer yn esbonio sut y dylai pobl ddilyn y rheolau yny gyfraith.





Mae'r Llywodraeth yn gwneud newidiadau i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol.



Trefniadau Amddiffyn

Rhyddid Pan fydd angen rhoi gofal neu driniaeth i berson nad oes ganddynt alluedd, weithiau byddant yn colli rhai o'u **hawliau** a'u ryddid.




Diffiniad **hawliau** yw'r pethau y gallwch eu cael a'u gwneud yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.



Mae rheolau y mae'n rhaid eu dilyn. pan fydd rhywun ar fin colli rhai o'u hawliau a'u rhyddid.



Yn y gorffennol, enw'r rheolau hyn oedd Trefniadau Amddifadu o Ryddid (DoLS).



Rydym yn gwella'r rheolau hyn. Enw'r rheolau newydd nawr fydd **Trefniadau Amddiffyn Rhyddid** neu LPS yn fyr.



Mae Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn ymwneud â sicrhau bod pobl nad oes ganddynt y galluedd **yn cael yr amddiffyniadau** priodol y dylai fod ganddynt.

Mae amddiffyniad yn golygu cadw chi'n ddiogel.

Beth yw eich barn chi?



Mae'r Llywodraeth yn:


- diweddarau Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- cyflwyno'r trefniadau Amddiffyn Rhyddid.




Mae eisiau gwybod eich barn arnom am y newidiadau hyn.



Dywedwch wrthym eich barn drwy ateb y cwestiynau yn y llyfryn hwn. Rhowch eich atebion i ni drwy ddefnyddio'r arolwg [ymgyngori Hawdd i'w Ddeall ar-lein](#):



Gallwch hefyd ateb y cwestiynau yn y ddogfen ymgyngori nad yw'n Hawdd i'w Darllen. Mae'r cwestiynau hyn yn wahanol i'r rhai a welir yn y llyfryn hwn ac maent yn gofyn am y manylion manylach yn y Cod Ymarfer llawn.



Mae'r llyfryn ymgyngori nad yw'n Hawdd i'w Ddarllen i'w weld ar [wefan ymgyngori GOV.UK](#)

Amdanoch chi




Ydych chi'n..

16 neu 17


18 i 64

65 neu'n hŷn



Ydych chi'n..

Wryw



Benyw




Gwell gennyf beidio â dweud

Beth yw eich crefydd?



- Cristion
- Bwdhaidd
- Hindw
- Iddewig
- Moslemaidd
- Sikh
- Dim crefydd
- Arall
- Gwell gennyf
- beidio â dweud



Ydych chi'n...

- Wyn
- O fwy nag un cefndir ethnig cefndir
- Asiaidd
- Du
- Cefndir ethnig arall
- Gwell gennyf beidio â dweud



Ym mha ran o'r DU ydych chi'n byw?

Lloegr

Cymru

Yr Alban

Gogledd Iwerddon

Tu allan i'r Du



Ydych chi'n rhiant neu'n warcheidwad i blentyn o dan 16 oed?

Ydw

Nac ydw



A ydych chi, neu rywun sy'n agos atoch, erioed wedi peidio cael y gallu i wneud eich penderfyniadau eich hun?



Ydw, fi yn bersonol



Ydw, rwy'n aelod o'r teulu neu'n ffrind



Ydw, rwy'n gwneud hyn ar ran rhywun rwy'n gofalu amdano.




Nac ydw



Gwell gennyf beidio â dweud

Newidiadau i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol



Mae llyfryn Hawdd i'w Ddarllen ar wahân sy'n esbonio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.



Dylech ddarllen hwn, ac yna ateb y cwestiynau hyn.



Cwestiwn 1a: Ydy'r llyfryn hwn yn helpu i egluro sut mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gweithio?

Ydy

Nac



Cwestiwn 1b: A oes unrhyw beth a allai wneud y llyfryn Ddeddf Galluedd Meddyliol Hawdd i'w Ddarllen yn fwy defnyddiol? Nodwch eich awgrymiadau.



Cwestiwn 2a: A oes unrhyw beth arall a ddylai fod yn y llyfryn Deddf Galluedd Meddyliol Hawdd i'w Ddarllen?

Oes Nac oes



Cwestiwn 2b: Nodwch beth ddylai gael ei gynnwys.




Cwestiwn 3: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y llyfryn Deddf Galluedd Meddyliol Hawdd i'w Ddarllen?

Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)



Weithiau mae'n bosibl y bydd angen i unigolyn nad oes ganddo alluedd gael amddiffyniadau ychwanegol o'i gwmpas i'w gadw'n ddiogel. Gall hyn olygu eu bod yn colli rhywfaint o'u rhyddid a'u hawliau.



Edrychwch hefyd ar ein llyfryn Hawdd i'w Ddarllen am y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

Gallwch weld hwn ar [wefan y Llywodraeth](#)



Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yw'r rheolau y mae'n rhaid i bobl eu dilyn os:

- nad yw rhywun yn gallu gadael y lle y mae ynddo.



- nad yw person yn gallu dewis sut i dreulio'i amser ac nad yw'n cael ei adael ar ei ben ei hun am rannau hir o'r diwrnod.



- yw'r Llywodraeth neu'r llysoedd wedi penderfynu bod angen y mesurau diogelu hyn.



Mae'r llywodraeth hefyd yn gwneud deddfau newydd o amgylch y 6 maes hyn:

1. Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Galluedd Meddyliol (AMCP)



Mae hyn ar gyfer Lloegr yn unig.



Bydd rôl newydd o'r enw Gweithiwr Proffesiynol ar gyfer Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP).



Bydd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am wirio bod y rheolau ynghylch Amddiffyn Rhyddid yn cael eu dilyn mewn rhai achosion.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol gytuno cyn y gall rhywun fod yn AMCP.



Cyn i chi ddechrau hyfforddi i fod yn AMCP mae angen i chi fod wedi gweithio am 2 flynedd fel un o'r rhain:



- Nyrs.
- Gweithiwr Cymdeithasol.
- Seicolegydd.
- Therapydd Iaith a Lleferydd.
- Therapydd Galwedigaethol.



Bydd AMCPs yn derbyn hyfforddiant i wneud y swydd. Bydd angen iddynt gael mwy o hyfforddiant bob blwyddyn.



Gall y cyngor atal rhywun rhag bod yn AMCP os nad yw'n mynychu'r hyfforddiant.



Gallwch ddarllen mwy am AMCPs yn y llyfryn Hawdd i'w Ddarllen ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid.



2. Asegiadau

Mae hyn ar gyfer Lloegr yn unig.

Er mwyn penderfynu a oes angen amddiffyniadau ychwanegol arnoch, mae angen 3 **asegiad**.

Mae asegiadau'n golygu gwiriadau. Mae **penderfyniadau** yn golygu penderfyniadau. Mae 3 asegiad yn y broses LPS a gwneir penderfyniad ar gyfer pob un.



Yr 3 asegiadau yw:

1) Galluedd. Mae hyn yn golygu gallu gwneud penderfyniad am eich bywyd ar yr adeg pan fod angen gwneud y penderfyniad.



Os nad oes gan rywun alluedd, mae'n bosibl na fyddant yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw.



Gall gweithiwr cymdeithasol neu rai gweithwyr iechyd proffesiynol wneud yr asegiad hwn.



2) Trefniadau. Dyma sut mae'r person yn cael gofal neu driniaeth a all olygu ei fod yn colli rhai o'i hawliau neu ryddid.



Gall gweithiwr cymdeithasol neu rai gweithwyr iechyd proffesiynol wneud yr asesiad hwn.



3) Meddygol. Mae hyn er mwyn darganfod a oes gennych **anhwylder meddwl**.

Mae **anhwylder meddwl** yn gyflwr iechyd meddwl sy'n effeithio ar sut rydych chi'n meddwl ac yn ymddwyn.



Dim ond meddyg neu seicolegydd all wneud yr asesiad hwn.



Ni all yr asesiadau gael eu cynnal gan rywun sydd â chysylltiad â chartref gofal.



Ni all yr asesiadau gael eu cynnal gan rywun a allai wneud arian allan ohonoch chi'n cael amddiffyniadau.



3. Eiriolwr Annibynnol ar Alluedd Meddyliol (IMCA)

Maehyn ar gyfer Lloegr yn unig.



Mae **eiriolwr** yn berson annibynnol sy'n eich helpu i leisio'ch barn neu sy'n gallu siarad ar eich rhan. Maen nhw'n helpu i sicrhau eich bod chi'n cael eich hawliau.



Mae IMCA yn rhywun sydd wedi derbyn hyfforddiant i helpu pobl sydd wedi colli rhai o'u hawliau a'u rhyddid.




Gall yr IMCA eich cynorthwyo.

Gall yr IMCA eich cynorthwyo.

Person Priodol os oes gennych chi un.

Gallwch ddarllen mwy am eich Person Priodol yn y Llyfryn Hawdd i'w Ddarllen ar wahân o'r enw 'Ein geiriau wedi'u hesbonio'.





Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau eich bod yn cael cymorth gan Berson Priodol neu IMCA.



Bydd eich ICMA yn, neu'n helpu, eich Person Priodol i'ch:



- helpu i gymryd rhan mewn gwneud unrhyw benderfyniadau



- gofyn i chi beth sydd ei eisiau arnoch a sut rydych chi'n teimlo am bethau



- meddwl am ffyrdd eraill i'ch cefnogi a'ch helpu

- cadw mewn cysylltiad â chi.

- cysylltu â'r **Corff Cyfrifol** ar eich rhan.



Y **Corff Cyfrifol** yw'r sefydliad yn y broses Trefniant Amddiffyn Rhyddid sy'n penderfynu ar drefniadau ar gyfer rhywun sydd heb alluedd.



1. Gwirio ac adrodd

Mae hyn ar gyfer Lloegr yn unig.



Mae'n bwysig fod ffordd gywir o wirio ac adrodd ar sut mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio.



Rydym am i'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) wirio ac adrodd ar sut mae'r mesurau diogelu yn gweithio gydag oedolion.



Rydym am i'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) wirio ac adrodd ar sut mae'r mesurau diogelu yn gweithio gyda phobl ifanc.



Bydd y Corff Cyfrifol yn anfon gwybodaeth am bobl â Threfniadau Amddiffyn Rhyddid i CQC ac Ofsted.



Bydd CQC ac Ofsted yn gallu ymweld â mannau lle mae gan bobl amddiffyniadau ychwanegol.



Byddant yn gallu cyfarfod â phob person a gweld eu cofnodion am eu hiechyd a'u gofal.



4. **Symud o'r hen reolau i'r rheolau newydd**

Mae'r gyfraith newydd hon yn egluro pryd y bydd y rheolau newydd yn dechrau.



Mae ar gyfer Lloegr a Chymru.



Bydd hefyd yn esbonio beth fydd yn digwydd os na allwchadael y lle rydych ynddo o dan yr hen reolau yn y flwyddyn gyntaf.



Byddwch yn parhau i fyw o dan yr hen reolau tan y bydd yn rhaid adolygu a newid eich sefyllfa.



Bydd y rheolau newydd yn berthnasol i chi ar ôl eich adolygiad.



5. Yr effaith ar gyfreithiaueraill

Mae hyn yn egluro pa gyfreithiau eraill all gael eu heffeithio.



Mae ar gyfer Lloegr a Chymru.



Mae'n esbonio a fydd yn rhaid i unrhyw gyfreithiau eraill newid oherwydd y rheolau newydd hyn.

Sefydlu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid



Bydd sefydlu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn golygu newid mawr i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Dylai cynghorau lleol a gwasanaethau iechyd sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant ar y newidiadau.



Mae'r Llywodraeth yn helpu sefydliadau i fod yn barod drwy roi arweiniad.

Bod yn deg i bawb



Rydym wedi ymchwilio i weld a yw'r newidiadau hyn yn annheg i unrhyw un.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn annheg â phobl oherwydd eu hoedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd neu **oherwydd cyfeiriadedd rhywiol**.

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn golygu at ba ryw y cewch eich denu. Er enghraifft, gwryw, benyw neu'r ddau.

Rydym yn meddwl gyda'r newidiadau hyn:



- bydd llai o asesiadau, sy'n dda i'r bobl dan sylw a'u teuluoedd
- bydd y trefniadau'n parhau am fwy o amser, felly does dim rhaid i bobl gael cymaint o asesiadau
- bydd pobl sydd heb ffrindiau neu deulu sy'n gallu eu cefnogi yn cael eiriolwr. Mae hyn yn well ar gyfer pobl hŷn, efallai nad oes ganddynt lawer o aelodau o'r teulu.



Beth yw eich barn am y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid?



Mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn esbonio beth sy'n digwydd os na all rhywun adael y lle y mae ynddo, ac efallai'n colli rhywfaint o'i rhyddid a'i hawliau.



Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich cadw chi yng nghanol y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanoch chi.



Mae'n bwysig eich bod yn deall sut mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio a sut brofiad y bydd i chi.



Mae hefyd yn bwysig ein bod yn deall eich barn fel y gallwn wella'r ffordd y mae pobl yn gweithio gyda chi.



Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl y bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn berthnasol i chi yn y dyfodol?

Er enghraifft, efallai eich bod wedi cael profiad o'r Trefniadau Amddifadu o Ryddid o'r blaen.

Ydw

Nacydw

Cwestiwn 5: Ydych chi'n meddwl bod y Llyfryn Cryno, Hawdd i'w Ddarllen, ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich helpu i ddeall y Trefniadau, beth yw'r broses a sut y gallai effeithio arnoch chi?



Ydw

Nacydw



Eglurwch eich ateb os ydymunwch.



Cwestiwn 6: Os ydych yn gofalu am rywun a allai gael ei effeithio gan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, a ydych yn deall y Trefniadau, beth yw'r broses a sut y gallai effeithio arnynt?

Ydw

Nacydw



Eglurwch eich ateb os y dymunwch.



Cwestiwn 7: A all y Llywodraeth ei wneud yn haws i chi ddeall y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid?

Gall

Na all



Dywedwch wrthym am ffyrdd y gallem ei wneud yn haws.



Cwestiwn 8: Pan fydd angen rhoi gofal neu driniaeth i unigolyn nad oes ganddynt alluedd, weithiau byddant yn colli rhai o'i hawliau a'i ryddid.



Gelwir y golled hon o ryddid yn amddifadiad o ryddid.



A yw'r Llyfryn Cryno, Hawdd i'w Ddarllen, ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich helpu i ddeall yr hyn a olygwn wrth 'amddifadiad o ryddid'?

Ydi

Nacydi



Eglurwch eich ateb os y dymunwch.



Cwestiwn 9: A all y Llywodraeth wneud mwy i'ch helpu i ddeall yr hyn a olygwn wrth 'amddifadiad o ryddid'?

Gall

Na all

Dywedwch wrthym am ffyrdd y gallem ei wneud yn haws.



Sicrhau eich bod yn cael dweud eich dweud yn y broses o Drefniadau Amddiffyn Rhyddid



Mae eisiau sicrhau eich bod yn cael eich cynorthwyo arnom ac yn cael eich clywed yn ystod y broses Amddiffyn Rhyddid.



Er mwyn gwneud hyn bydd gennych:

- Berson Priodol - dyma rywun sy'n agos atoch a fydd yn deall eich dymuniadau a'ch teimladau, neu




- Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol - mae hwn yn berson annibynnol sydd wedi derbyn hyfforddi yn y system LPS a bydd yn eich helpu i leisio'ch barn, a



- Ymgynghori - Y broses o siarad â phobl.

Mae'n rhaid i'r Corff Cyfrifol siarad â'r person sydd heb allu yn ogystal â phawb sy'n ymwneud â'i ofal.

Mae hyn er mwyn iddynt ddysgu beth sydd ei eisiau ar yr unigolyn a sut mae'n teimlo.



Cwestiwn 10: A yw'r llyfryn cryno, Hawdd i'w Ddarllen, ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich helpu i ddeall rôl y Person Priodol?


Ydi

Nac ydi



Dywedwch wrthym sut y gallem ei wneud yn haws.

Os ydych yn meddwl y byddwch yn Person Priodol o dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, hoffem wybod eich barn.



Cwestiwn 11: A yw'r llyfryn cryno, Hawdd i'w Ddarllen, ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich helpu i ddeall rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol?

Ydi

Nac ydi



Dywedwch wrthym sut y gallem ei wneud yn haws.



Cwestiwn 12: Rydym am sicrhau bod y bobl sy'n gweithio gyda chi yn y broses Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gallu eich helpu i siarad am eich dymuniadau a'ch teimladau.




Beth yw'r peth mwyaf defnyddiol y gall pobl sy'n gweithio gyda chi ei wneud i'ch helpu i siarad am eich dymuniadau a'ch teimladau?

Os nad ydych yn hapus ynghylch sut mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu defnyddio gyda chi



Os nad ydych yn hapus â'r ffordd y mae'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu defnyddio gyda chi, dylech chi a'ch Person Priodol neu IMCA siarad â'ch cyngor lleol neu'r GIG.




Cwestiwn 13: A yw llyfryn cryno, Hawdd i'w Ddarllen, ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich helpu i wybod beth i'w wneud os ydych yn anhapus ynghlŷn â sut mae'r Trefniadau Amddiffyn yn cael eu defnyddio gyda chi?

Ydi

Nac ydi

Sut gallai fod yn well?





Am ba mor hir y mae gennych drefniadau Amddiffyn Rhyddid?



Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid cyntaf yn parhau am hyd at 1 flwyddyn.



Os nad oes newidiadau wedi bod a bod y trefniadau'n gweithio'n dda, gallant **gael eu hadnewyddu**.


Mae **adnewyddu** yn golygu eu bod yn parhau am gyfnod arall o amser.




Gall fod yn bosib i newid y trefniadau. Weithiau bydd angen asesiadau newydd.



Gall yr adnewyddiad cyntaf fod am hyd at 1 flwyddyn. Ar ôl hynny gall unrhyw adnewyddiadau ychwanegol barhau am hyd at 3 blynedd.






Cwestiwn 14: A yw llyfryn cryno, Hawdd i'w Ddarllen, am Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn eich helpu i ddeall sut a phryd y gellir adnewyddu'r Trefniadau?

Ydi

Nac ydi

Sut gallai fod yn well?



Yn olaf

Cwestiwn 15: Beth yw eich barn am yr holiadur hwn?



Hapusiawn



Hapus

Ddim yn hapus nac yn anhapus


Anhapus



Anhapus iawn



Cwestiwn 16: Sut glywsoch chi am yr holiadur hwn?




Cwestiwn 17: Beth allem wneud yn well?


Diolch



Diolch am eich atebion.



Rhowch eich atebion i ni drwy ddefnyddio'r arolwg ymgynghori Hawdd i'w Ddeall ar-lein.



Gallwch ei gyrchu trwy glicio ar y [ddolen hon](#)